Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Gylch Meithrin Abergwaun
## Canolfan Hamdden Abergwaun
## Sir Benfro
## SA65 9DT

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Abergwaun, sydd yn cwrdd mewn ystafell yng nghanolfan chwaraeon Abergwaun, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae'r lleoliad yn agor am bedwar bore'r wythnos rhwng 9.10 y bore ac 11.40 y bore.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 plentyn ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a thair oed. Mae tua hanner o'r plant yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac nid oes un ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pump aelod o staff yn ystod yr wythnos. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Ebrill 2014.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Chwefror 2017 a gan Estyn ym mis Mawrth 2011.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o fannau cychwyn sydd yn debyg i, neu'n uwch na'r, cyfartaledd disgwyledig
- y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn gwrtais
- yr addysgu cadarn a'r heriau dyddiol yn atgyfnerthu dysgu'r plant
- ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant
- gofal diwyd a chyson yr ymarferwyr yn gwbl weithredol
- ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol yn greadigol i ddarparu profiadau awyr agored ysgogol i'r plant

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- disgwyliadau uchel yr arweinydd yn rhoi cyfarwyddyd clir i holl waith yr ymarferwyr a'r plant
- y pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn monitro'r ddarpariaeth yn ddeallus
- diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn arwain at welliannau defnyddiol
- ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pwrpasol
- partneriaethau llwyddiannus yn cefnogi'r ddarpariaeth a dysgu'r plant yn effeithiol
- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn synhwyrol ac yn blaenoriaethu'r gwariant yn ddoeth

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio asesiadau’n effeithiol er mwyn cynllunio’r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A2 Sicrhau bod cyflwyniadau torfol yn cyfatebu’n briodol ag oedran a gallu’r plant

A3 Creu cyswllt cadarn rhwng y prosesau hunanarfarnu a thargedau’r cynllun datblygu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn yn y lleoliad o fannau cychwyn sydd yn debyg i, neu'n uwch na'r, cyfartaledd disgwyledig. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus. Mae Cymraeg llawer ohonynt yn gwella'n gyflym ar lafar o fannau cychwyn isel.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn effeithiol, gydag anogaeth oedolion, mewn chwarae anffurfiol ac yn enwedig yn ystod tasgau ffocws. Er enghraifft, maent yn adnabod anifeiliaid gwahanol a'u nodweddion amrywiol ac yn trafod rhannau'r corff yn hyderus. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ceisio creu brawddegau syml, wrth adeiladu ar eu hymwybyddiaeth o batrymau iaith penodol, wrth ofyn yn gwrtais am gaws, ffrwythau neu fara o amgylch y byrddau byrbryd.

Mae llawer o'r plant yn trin a thrafod llyfrau wrth eistedd ar glustog enfawr yn yr ardal ddarllen, fel darllenwyr cynnar, synhwyrol. Maent yn ymateb yn ddeallus i holi ymarferwyr wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau mewn storïau. Wrth ymateb i gynnwys llyfrau mewn parau a gydag oedolyn, maent yn deall diben y lluniau a phwrpas yr ysgrifennu i gyfleu'r stori. Mae llawer o'r plant yn deall bod gwahanol emosiynau a theimladau yn bodoli ac yn perthyn i gymeriadau unigol, er enghraifft adnabod y blaidd fel y cymeriad peryglus yn stori'r tri mochyn bach.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau â phrofiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio creonau i sgriblo a thynnu lluniau ar ddarnau hir o bapur yn bwrpasol. Mae ychydig o'r plant yn ymdrechu'n synhwyrol i nodi archeb cwsmeriaid ar bapur yn y caffi chwarae rôl. Mae llawer o'r plant yn arbrofi gyda'u bysedd yn y reis lliwgar a gyda phensiliau ar bapur i ymarfer llythrennau eu henwau'n llwyddiannus. Mae lleiafrif o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain ac eraill yn gywir. Yn ogystal, maent yn dechrau ffurfio llythrennau a rhifau mewn ffurfiau adnabyddadwy yn hyderus. Mae ychydig iawn o'r plant yn cofnodi presenoldeb eraill yn gywir ar y gofrestr gydag ysgrifbin wrth adnabod eu henwau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt gydbwyso siapiau gwahanol tri dimensiwn â thafol a chymharu gwerth darnau gwahanol o arian ar ôl eu darganfod gyda magnetau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfri rhifau i 10 yn annibynnol. Mae lleiafrif ohonynt yn adnabod, enwi a chyfrif i 10 a thu hwnt yn gywir, wrth ddidoli siapiau a gwrthrychau a chreu siapiau allan o does. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall gwahaniaethau mewn maint wrth archwilio â chwyddwydrau yn y pridd a chasglu dail a brigau ar helfa drysor yn y goedwig. Maent yn esbonio'n llwyddiannus y gwrthrychau 'mawr', 'bach' a 'chanolig', ac os ydynt yn 'drwm', neu'n 'ysgafn', a'u basgedi'n 'wag' neu'n 'llawn'.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg yn llwyddiannus ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson gydag anogaeth oedolion. Mae ychydig ohonynt yn ymdrechu â'r iaith yn gwbl annibynnol ar lafar gyda'i gilydd a'r oedolion. Mae bron pob un plentyn yn canu hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn frwdfrydig yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio technoleg yn bwrpasol wrth ymateb i heriau â llechi a theganau electronig, chwaraewr cryno ddisg a chlipfyrddau â recordydd sain. O ganlyniad, mae eu defnydd o feddalwedd addysgol ac apiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau meddwl yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau yn effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn defnyddio glud a gwellt i gyfleu llun o dymor yr hydref, adeiladu trac â phontydd i yrru trenau a phalu'n briodol i blannu bylbiau cennin Pedr yn yr ardaloedd tyfu. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn addas pan fyddant yn rhedeg a dawnsio yn neuadd y ganolfan yn achlysurol, cerdded ar deithiau o gwmpas y dref a'r ardal gyfagos a physgota am grancod wrth ymyl y môr.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Maent yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio â chymhelliant yn ystod gweithgareddau annibynnol a thasgau ffocws. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ym mhob maes dysgu ac mae llawer o'r plant yn rhannu a gweithio'n ddiwyd gyda phlant eraill. Mae llawer o'r plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, er enghraifft wrth brintio ar bapur â ffrwythau a phaent a thoddi siocled mewn i fowldiau siâp y galon.

Mae llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis yn feddylgar pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau. Maent yn esbonio'n synhwyrol pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt ac ym mha ran o'r adeilad y dymunant weithio. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau mynegi eu barn a'u hoffterau personol yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n synhwyrol ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn brwsio eu dannedd gyda'i gilydd a phan fyddant yn eistedd yn eu tro i fwyta byrbrydau. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae'n anniben a phlannu bylbiau yn y pridd, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb anogaeth gan ymarferwyr. Mae hyn yn dangos eu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd glendid a bywydau iach.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio'n gydwybodol i ddarparu gweithgareddau diddorol i'r plant. Maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu dysgwyr annibynnol trwy ddarparu gweithgareddau cyfoethog ac amrywiol fel creu ieir bach yr haf cymesur gyda phaent. Maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol ac i ymhelaethu ar eu profiadau personol. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo trafodaethau defnyddiol wrth chwarae rolau'r cogydd a'r cwsmer yng nghegin y caffi chwarae rôl. O ganlyniad, maent yn darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu difyr, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus.

Mae’r holl ymarferwyr yn trafod yn wythnosol sut i baratoi a chyflwyno gweithgareddau cyffrous a heriol. Maent yn trefnu’r gweithgareddau’n synhwyrol ac yn cynnwys cyfleoedd i drafod, ymateb i lyfrau, creu marciau ac ymarfer â rhifau a siapiau yn y rhan fwyaf o’r ardaloedd ddysgu. Mae’r cynllunio dyddiol doeth hyn yn adeiladu’n bwrpasol ar frwdfrydedd y plant, wrth iddynt ymroi’n llwyr i dasgau ffocws a pharhaus. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu’n drylwyr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant.

Mae’r ymarferwyr yn targedu diddordebau’r plant yn synhwyrol. Mae’r broses o gynllunio’n sefydlog a dan law yr arweinydd. Fodd bynnag, mae’r cyswllt rhwng y cynllunio â’r broses asesu yn aneglur. Nid yw’n deillio’n gwbl effeithiol o asesiadau’r ymarferwyr i dargedu’r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn effeithiol. Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio ystod o offer fel chwaraewr cryno ddisg, teganau a llechi electronig. Mae’r ymarferwyr yn cymell y plant yn gyson i ddefnyddio’r meddalwedd addysgol a’r apiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu synnwyr o’r iaith a’u medrau TGCh cynnar. O ganlyniad, mae’r plant yn defnyddio’r cyfarpar yn hyderus.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r Gymraeg yn fuddiol i’r plant. Mae’r ymarferwyr yn fodelau cyson o’r iaith. Maent yn annog plant i ddefnyddio’r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau cyffrous, sy’n cynnwys caneuon a heriau ieithyddol yn yr ardaloedd dysgu. Maent yn holi’n rheolaidd yn y Gymraeg, sy’n ysgogi’r plant i ymateb yn bwrpasol. Effaith hyn yw bod llawer o’r plant yn ymateb â geiriau gydag ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. Maent yn rhifo, enwi lliwiau ac adnabod siapiau yn ddeallus yn fuan ar ôl cychwyn y lleoliad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o’r plant o’r iaith yn datblygu’n gadarn.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen.

Er bod y cyfleoedd i ddarparu gweithgareddau corfforol i’r plant yn anodd oherwydd natur yr adeilad, mae’r ymarferwyr yn greadigol yn eu cynllunio. Maent yn defnyddio’r neuadd yn achlysurol pan mae cyfleoedd yn codi, yn mynd â’r plant allan i’r ardal blannu, ac yn ymweld â’r dref a chyfleusterau cyhoeddus fel y goedwig a glan y môr. Maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd iddynt ddawnsio a chwarae’n fywiog yn yr ystafell, sy’n hybu synnwyr y plant o ffitrwydd yn effeithiol. Mae’r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau corfforol y plant yn addas.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Er enghraifft, mae’r heddlu, y swyddog diogelwch ffordd, glanweithydd deintyddol a dawnswyr yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio siopau’r dref, cludiant cyhoeddus, glan y môr, carnifal y dref, y parc a’r ardal goediog i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o’u cymuned leol yn llwyddiannus.

### Addysgu: Da

Mae’r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen ac yn cydweithio’n effeithiol. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn synhwyrol, sy’n annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus yn yr holl ardaloedd dysgu a’r gweithgareddau dyddiol.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio'r plant yn gyson yn ystod tasgau ffocws a thasgau parhaus. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant y plant yn uchel. Ar y cyfan, mae cyflwyniadau'r ymarferwyr yn fywiog, sy'n sbarduno a chynnal diddordebau'r plant yn effeithiol. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r cyflwyniadau torfol yn cyfatebu'n briodol ag oedran a gallu'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn wrth ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant. Maent yn synhwyrol eu ffyrdd ac yn effeithio'n gadarnhaol ar awydd y plant i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn ysgogi ac arwain y plant at lwyddiannau'n gyson. Gwelir enghreifftiau cadarn o hyn wrth i blant ddyfalbarhau i ddilyn patrwm wrth edinio siapiau ar linyn, ac wrth iddynt esbonio nodweddion gwahanol anifeiliaid i'w gilydd yn yr ardal byd bach.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn gyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy arbrofi a chwarae ac yn sicrhau bod y plant yn cylchdroi'n rheolaidd i brofi medrau gwahanol ym mhob maes dysgu. Yn ychwanegol, maent yn holi'r plant yn graff i ddatblygu eu medrau cyfathrebu a meddwl. Gwneir hyn yn llwyddiannus wrth adrodd trefn rhifau i fyny i 10 ac yn ôl i sero, penderfynu ar sut i blannu bylbiau yn yr ardaloedd plannu a thrin arian yng nghegin y caffi chwarae rôl.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn effeithiol ar y cyfan. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn ystod gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a phwrpasol, sy'n arwain at ddiffyg wrth gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn effeithiol am gyflawniadau eu plant. Mae'r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr yn cefnogi hyn. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae adroddiadau defnyddiol a samplau o waith ar gael i rieni ynglŷn â chynnydd eu plant.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau byrbryd ac amser stori i feithrin y gwerthoedd hyn yn llwyddiannus. Maent yn hyrwyddo ystyriaeth a dealltwriaeth y plant o deimladau cyfoedion yn ddeallus. O ganlyniad, mae'r plant yn trin ei gilydd yn deg ac yn parchu eraill, gan gynnwys oedolion.

Mae'r arweinydd a'r holl ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i blant feddwl, gweddïo, trafod teimladau a dweud diolch. Effaith hyn yw bod plant yn distewi i wrando ar eraill, yn cymryd eu tro'n ddeallus ac yn rhannu cyfarpar. Mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'n synhwyrol wrth olchi dwylo, arllwys diod, dewis a rhannu byrbrydau a llinellu i symud i'r awyr agored. Mae'r systemau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldebau personol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, bwyd, nwyddau plastig a stampiau. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o

gynaliadwyedd yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae’r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae’r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw.

Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel. Mae’r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae’r defnydd o strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad anghyfrifol.

Mae’r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn gydwybodol pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad ac yn ystod eu cyfnod yno. Maent yn cyfeirio plant ar unwaith at asiantaethau arbenigol os oes angen ymyrraeth benodol ac yn darparu cymorth perthnasol pan fo’r angen yn codi. O ganlyniad, maent yn gweithredu cefnogaeth bwrpasol i blant anghenus drwy ddefnyddio asiantaethau allanol i gefnogi’r plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol ac mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant. Mae’r holl blant yn cael cyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn gytûn wrth herio a chefnogi’r plant yn ddyddiol mewn moddau cadarnhaol a chefnogol.

Mae’r ymarferwyr yn atgoffa’r plant yn gyson ein bod ni’n byw mewn cymdeithas sy’n cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol ac agweddau synhwyrol tuag at bobl eraill. Maent yn dathlu’r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd a Diwali yn flynyddol ac yn defnyddio doliau i drafod nodweddion gwahanol ddiwylliannau. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn addysgu’r plant am wahanol wyliau a thraddodiadau’r byd yn llwyddiannus.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau’n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Mae’r ystod eang o adnoddau diddorol a difyr yn cael eu defnyddio’n bwrpasol i herio’r plant mewn tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus i gyfoethogi’r dysgu. Mae’r adnoddau ar lefel ymarferol i bob un o’r plant, sy’n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau’r plant yn llwyddiannus.

Mae’r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae’n ddiogel. Mae pob ardal sydd ar gael iddynt yn cael eu defnyddio’n effeithiol ac maent yn rhannu’r adeilad gyda rhaniadau yn synhwyrol iawn. Nid oes ardal allanol ar gael iddynt; fodd bynnag, mae’r ymarferwyr yn defnyddio cyfleusterau’r ardal leol yn greadigol a llwyddiannus iawn er mwyn cyfoethogi profiadau’r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau’r lleoliad yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar ddarparu profiadau effeithiol i’r plant. Mae’r arweinydd, yr ymarferwyr a’r pwyllgor rheoli yn bodloni anghenion y plant yn effeithiol ac yn dathlu eu cyflawniadau a’u cynnydd yn llwyddiannus.

Mae’r arweinydd yn brofiadol ac mae hi’n rheoli tîm o ymarferwyr ymroddgar a brwdfrydig. Mae hi’n defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i greu gwelliannau i’r ddarpariaeth, sy’n effeithio’n gadarnhaol ar ddeilliannau’r plant. Mae ei gweledigaeth yn sicrhau bod yr addysgu a’r dysgu yn brif ffocws er mwyn hyrwyddo a chynnal gwelliannau cyson yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran yr ymarferwyr a’r plant, sy’n cymell pawb at welliannau mewn ffyrdd synhwyrol a phwrpasol.

Mae’r arweinyddiaeth, sy’n cynnwys cyfraniad y pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddifyr ac ysgogol. Mae’r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn ac yn gweithio’n ddiwyd fel tîm. Mae’r arferion goruchwylio a gwerthusiadau blynyddol yn gadarn a sefydlog. O ganlyniad, gwneir y gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae’r arweinydd a’i thîm yn canolbwyntio’n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl ardaloedd dysgu a gweithredu gofynion y proffil cyfnod sylfaen.

Mae’r pwyllgor rheoli’n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd ac maent yn chwarae rhan ymarferol ym mywyd y lleoliad. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau codi arian a monitro’r cyllid yn bwrpasol. Mae’r pwyllgor rheoli’n herio’r lleoliad yn synhwyrol i gynnal arferion cyson a chefnogi i ddatblygu’r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

### Gwella ansawdd: Da

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu, sy’n arwain at welliannau defnyddiol, yn rhan o waith tymhorol y lleoliad. Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro deilliannau’r plant a’r ddarpariaeth. Mae'r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Maent yn cytuno’r targedau gyda’r ymarferwyr ac yn gweithredu'r newidiadau’n bwrpasol ar y cyd.

Mae proses newydd yr awdurdod lleol, yn ogystal â gwerthusiadau’r pwyllgor rheoli, yn cyfrannu'n effeithlon at yr hunanarfarnu. Maent hefyd yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau ystyrlon dros amser, fel datblygu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r ardal leol fel adnodd dysgu a gwella’r defnydd o’r proffil cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, ar adegau, mae’r cyswllt rhwng y meysydd i’w gwella yn yr hunanarfarniad â thargedau’r cynllun datblygu yn anghyson. Felly, nid yw’r targedau yn y cynllun datblygu bob amser yn deillio’n uniongyrchol o’r broses hunanarfarnu. Nid yw’r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog cyswllt Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu’n rheolaidd ar eu cyngor. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel sefydlu cefnogaeth gan asiantaethau arbenigol ar gyfer plant unigol yn y lleoliad.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n bwrpasol gyda phartneriaid i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

Maent yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn hysbysu rhieni'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad trwy gyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau cyson.  Mae cyfleoedd gwerth chweil ar gael iddynt gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron, cyfarfodydd a thrafodaethau.  O ganlyniad, mae'r cysylltiadau cymunedol hyn yn hybu dysgu'r plant yn llwyddiannus trwy gefnogi ymweliadau cyson, ymwelwyr i gyfoethogi'r cwricwlwm a chefnogaeth ariannol.  Yn ychwanegol, mae'r gefnogaeth yn fuddiol wrth gynnig am gyfarpar a grantiau perthnasol i hybu'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae cysylltiadau priodol gyda'r ysgolion lleol.  Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio'r plant gyda'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithlon.  Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn ddefnyddiol i'r plant wrth iddynt ymgynefino â'u hysgolion newydd.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.  Mae hyn yn atgyfnerthu'r partneriaethau cadarnhaol sy'n bodoli.  Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi trwy ddarparu dogfennaeth ddefnyddiol a hyfforddiant effeithiol.  Mae ymarferwyr hefyd yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill.  Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, datblygiadau'r cyfnod sylfaen a diogelu plant.  Mae'r cysylltiadau defnyddiol hyn yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn ymdrechu'n gyson i wella pob agwedd ar waith y lleoliad.  Mae'r arweinydd diwyd a'r pwyllgor rheoli cefnogol yn defnyddio arferion pwrpasol i alluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus.  Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys trwy ddarparu hyfforddiant cyflawn.  O ganlyniad, defnyddir ymarferwyr yn ddeallus i dargedu anghenion y plant ac mae adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn sicrhau addysgu diddorol a dysgu pwrpasol.  Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn synhwyrol i gefnogi dysgu'r plant.  Mae hyn yn cynnwys y defnydd o'r ardal leol fel adnodd dysgu effeithiol, neuadd y ganolfan am weithgareddau corfforol a'r ardal blannu i ymchwilio'n fwriadus i fyd natur.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a'r heriau sydd ynghlwm â hi.  Maent yn blaenoriaethu gwariant ac yn defnyddio grantiau yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol.  Mae gofalwyr a rhieni hefyd yn cyfrannu'n gyson i gyllido'r lleoliad, trwy ddigwyddiadau cymunedol i godi arian.  O ganlyniad, mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn gwella cyflawniadau'r plant trwy ddarpariaeth effeithiol ac arweinyddiaeth lwyddiannus.  Felly, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |